# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 3**

SIPSIWN A THEITHWYR

*Cyffredinol*

**109 Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr yn adran 108 drwy—

(a) ychwanegu disgrifiad o bersonau;

(b) addasu disgrifiad o bersonau;

(c) dileu disgrifiad o bersonau.

(2) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon hefyd wneud ba bynnag ddiwygiadau i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ag y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol o ganlyniad i newid i'r diffiniad a grybwyllir yn is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 109 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 109 mewn grym ar 25.2.2015 gan O.S. 2015/380, **ergl. 2(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 109.